

Yr Athro Ymholgar

ECPP7001C

Session 9



Ystyried ymarfer moesegol
ac ymchwil foesegol

Cymeradwyaeth foesegol

Beth yw moeseg?

- ▶ Cyfiawnder?
- ▶ Hawliau?
- ▶ Foesau?
- ▶ Ddyletswydd?
- ▶ Tegwch?
- ▶ Cyfrifoldebau?
- ▶ Gwerthoedd?
- ▶ Synnwyr cyffredin?

Beth yw moeseg?

- ▶ *Mae 'moeseg' yn cyfeirio at reolau ymddygiad; fel arfer i gydymffurfio â Chod neu set o egwyddorion (Robson, 2002:65).*
- ▶ *Mewn addysg, nodir y Cod hwn gan y British Education Research Association (BERA)*

Pam mae gennym godau moesegol?

- ▶ Cyflwynwyd ar ôl yr Ail Rhyfel Byd yn dilyn erchyllterau mewn gwersylloedd marwolaeth
- ▶ Sut yr ydym yn ystyried y data a gasglwyd yn y gwersylloedd marwolaeth?
- ▶ Casglwyd y data'n drylwyr, gan roi gwybodaeth a oedd yn ddefnyddiol iawn i ymchwil feddygol
- ▶ A ddylid ei ddefnyddio?

Ufudd-dod neu gydymffurfiaeth (Obedience or conformity)

- ▶ Stanley Milgram-arbrawf
- ▶ Defnyddiwyd lefel y sioc yr oedd y cyfranogwr yn fodlon ei chyflwyno fel mesur ufudd-dod.
- ▶ Pa mor bell ydych chi'n meddwl yr oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn fodlon mynd?
- ▶ Faint o'r 100 o gyfranogwyr yn eich barn chi a barhaodd i weinyddu'r sioc fwyaf?

Ufudd-dod neu gydymffurfiaeth

- ▶ Myfyrwyr Prifysgol Iâl, UDA (Yale)
- ▶ Rhagfynegedwyd ni fyddai mwy na 3 allan o 100 o gyfranogwyr yn cyflawni'r sioc fwyaf.
- ▶ Realiti = Roedd 65% o'r cyfranogwyr yn cyflwyno'r siociau mwyaf.

You are in: Health

Monday, 29 January, 2001, 08:49 GMT

Front Page
World
UK
UK Politics
Business
Sci/Tech
Health
Background
Briefings
Medical notes
Education
Entertainment
Talking Point
In Depth
AudioVideo

Organ scandal background



Organs were retained at the hospital without consent

The scandal at Alder Hey Children's hospital centres on the retention of hearts and organs from hundreds of children.

The organs were stripped without permission from babies who died at the hospital between 1988-1996.

Hospital staff also kept and stored 400 fetuses collected from hospital around the north west of England.

The findings of an inquiry into the affair have been described by Health Secretary Alan Milburn as "grotesque" and helplines have been set up to deal with calls from distressed parents.

The first organ scandal broke in Bristol in 1998 when it became clear that staff at the hospital had been keeping hearts following surgery at the hospital.

The scandal at Alder Hey emerged almost accidentally when heart specialist Professor Robert Anderson revealed at a separate official inquiry into heart surgery at Bristol that a store of children's hearts was kept at Alder Hey.

And in September it was announced that Birmingham's Diana Princess of Wales Children's Hospital and the Alder Hey Children's Hospital, in Liverpool, had been harvesting organs and tissues from the babies who died at their hospitals.

The same two hospitals that last week were caught up in the cash for tissues row, which revealed that both the Birmingham and Liverpool hospitals had given Thymus glands,

Search BBC News Online

GO

Advanced search options

Launch console
for latest audio/video

BBC RADIO NEWS

BBC ONE TV NEWS

WORLD NEWS
SUMMARY

BBC NEWS 24 BULLETIN

PROGRAMMES GUIDE

News and Analysis

Key stories

- ▶ Pathologist's defence
- ▶ Organ summit called
- ▶ Van Velzen suspended
- ▶ Police called in
- ▶ At a glance
- ▶ Report in detail
- ▶ Fears of backlash
- ▶ 100,000 organs kept
- ▶ Where organs are held

Background

The pathologist

The families

AUDIO VIDEO

TALKING POINT

FORUM

- ▶ Leading pathologist quizzed

Internet links:

- ▶ Royal College of pathologists
- ▶ Alder Hey Children's Hospital

The BBC is not responsible for the content of external internet sites

Top Health stories now:

- ▶ Postcode lottery in GP services
- ▶ IVF mix-up heads for court
- ▶ Transplant first for cancer patient
- ▶ Costly wait with dementia symptoms
- ▶ Chicken checked for BSE
- ▶ New hope for Aids vaccine
- ▶ Campaign to end stigma


► <http://news.bbc.co.uk/1/hi/1136723.stm>

A yw 'moeseg' yn absoliwt?

- ▶ Mae penderfyniadau moesegol fel arfer yn ddewisiadau sy'n gysylltiedig â'r cydbwysedd rhwng budd a risg
- ▶ Caiff y dewisiadau hyn eu harwain gan:
 - *ganllawiau moesegol
 - *brosesau cymeradwyo moeseg
 - *bwyllgorau moeseg

A yw 'moeseg' yn absoliwt?

- ▶ A oes ymateb 'cywir' ac 'anghywir' i ddeilema moesegol?

The background features abstract, overlapping green geometric shapes, primarily triangles and polygons, in various shades of green, creating a modern and dynamic visual effect.

Ymddygiad moesegol ac athrawon

Gofynion CGA (EWC)

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer
Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/>

(ar waelod y dudalen)

Rhaid i athrawon cofrestredig:

- ▶ seilio eu perthynas â disgyblion ar ymddiriedaeth a pharch;
- ▶ rhoi sylw i ddiogelwch a lles y disgyblion sydd yn eu gofal;
- ▶ gweithio mewn modd cydweithredol gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill, a datblygu a chynnal perthynas dda â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.

Arfer moesegol

A yw hyn yn syml?

Ystyriwch moeseg:

- * Plant yn chwarae uwcharwr.
- * Yr athro yn gofyn i blant eistedd

Moeseg ymddiriedaeth, gonestrwydd ac uniondeb

Cuddio ein pwrpasau

Cyfrinachedd - beth yw gwybodaeth gyfrinachol?

Arfer moesegol

- ▶ ... gwneud dyfarniadau (moesegol) am ymddygiad
- ▶ <http://www.youtube.com/watch?v=E3h-T3KQNxU>

Yn yr ystafell ddosbarth

- ▶ Yr athro fel model rôl model
- ▶ In loco parentis?

Deilema

Mae'r awyrgylch yn ysgol uwchradd Abertawe yn dynn gyda'r disgwyl. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, mae'r tîm rygbi wedi cyrraedd y rownd cynderfynol yn y sir. Mae'r gymuned yn llawn cyffro hefyd, ac mae pawb yn gwneud cynlluniau i fynychu'r digwyddiad mawr Dydd Sadwrn nesaf.

Deilema

Mae Jac, yr hyfforddwr, wedi bod yn aros am flynyddoedd i gael tîm o'r fath.

Dim ond un wythnos arall sydd ar ol i ymarfer.

Mae'n rhaid i bawb fod yn yr ymarfer bob nos yn ystod yr amser a drefnwyd yn rheolaidd - **dim eithriadau**.

Deilema

Ddydd Mawrth, mae Dylan yn hwyr i'r ymarfer.

Mae Dylan yn hwyr oherwydd bod yn rhaid iddo fynd â'i chwaer fach i'r meddyg gan ei bod yn sâl iawn.

Deilema

Mae'r rheol yn dweud y dylai unrhyw un sy'n torri rheol gael ei wahardd am un wythnos lawn.

Os yw Jac yn dilyn y rheol, ni fydd Dylan yn chwarae yn y rownd cynderfynol. Ond mae'r tîm cyfan yn dibynnu arno.


Beth ddylai Jac ei wneud?

Deilema

Ar ddydd Mercher, roedd Luc yn hwyr oherwydd iddo gael ei gadw ar ol gwerau am beidio gwneud ei waith cartref.

Mae Luc yn chwaraewr rygbi gwybach. Os na fydd yn chwarae, maent yn annhebygol o ennill.

Beth ddylai Jac ei wneud nawr?

The background features abstract, overlapping green geometric shapes, primarily triangles and polygons, in various shades of green, creating a modern and dynamic visual effect.

Anhysbysrwydd a chyfrinachedd

Anhysbysrwydd a chyfrinachedd

‘The confidential and anonymous treatment of participants’ data is considered the norm for the conduct of research’ (BERA, 2018:21)

- ▶ Mae gan y cyfranogwyr yn eich ymchwil yr hawl i breifatrwydd.
- ▶ Cyflawnir hyn drwy sicrhau eich bod yn rheoli eich data ymchwil yn gyfrinachol ac yn ddienw.

Anhysbysrwydd a chyfrinachedd

- ▶ Nid yw rhain yr un peth.
- ▶ Dylid sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwbl ymwybodol o fwriad yr ymchwilydd o ran anhysbysrwydd a chyfrinachedd.
- ▶ Mae **cyfrinachedd** yn golygu peidio â datgelu gwybodaeth gan gyfranogwr mewn unrhyw ffordd a allai adnabod yr unigolyn hwnnw neu ganiatáu iddo gael ei olrhain.
- ▶ Mae **anhysbysrwydd** yn golygu na all yr ymchwilydd na pherson arall adnabod y cyfranogwr o'r wybodaeth a ddarparwyd.

Cyfrinachedd

- ▶ Mae cyfrinachedd yn golygu mai dim ond yr ymchwilydd/wyr sy'n gallu cysylltu ymatebion gydag unigolion.
- ▶ Rhaid i'r ymchwilwyr wneud pob ymdrech i atal unrhyw un o'r tu allan i'r astudiaeth rhag cysylltu unigolion â'u hymatebion.

Anhysbysrwydd a chyfrinachedd

- ▶ Mae anhysbysrwydd yn anodd wrth ddefnyddio fideo a/neu ddata digidol.
- ▶ Mae canllawiau BERA yn ddefnyddiol ac yn fanwl yn hyn o beth (gweler p.21-25).
- ▶ Mae goblygiadau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn sylweddol a dylai ymchwilwyr fod yn gyfarwydd â goblygiadau'r rhain ar gyfer eu hymchwil.

Sicrhau data dienw

- ▶ Mae gallu rhannu eich ymchwil yn bwysig. Fodd bynnag, yn foesegol, mae'n rhaid i ni ddiogelu ein cyfranogwyr.
- ▶ Lle bynnag y bo modd, ni ddylech gasglu gwybodaeth adnabod (fel enw, cyfeiriad) ar gyfer eich cyfranogwyr.
- ▶ Dylech gadw'ch data'n ddienw o ddechrau'r broses.

Sut gallwch chi droi data yn anhysbys?

- ▶ Mae'r broses o droi data yn anhysbys yn galw am newid y dynodwyr mewn rhyw ffordd.
- ▶ Gallai hyn olygu bod gwybodaeth adnabod yn cael ei thynnu ymaith, ei hamnewid, ei hystumio, ei chyffredinoli neu ei chydgasglu.
- ▶ Cofiwch, gall manylion adnabod unigolyn gael eu datgelu trwy:
 - **Ddynodwyr uniongyrchol** fel enwau, gwybodaeth cod post neu luniau.
 - **Dynodwyr anuniongyrchol** a allai, o'u cysylltu â gwybodaeth arall sydd ar gael, ddatgelu pwy yw rhywun, er enghraifft gwybodaeth am weithle, cyflog neu oedran.

The background features abstract, overlapping green geometric shapes, primarily triangles and polygons, in various shades of green, creating a modern and dynamic visual effect.

Ymddwyn yn Foesebol

Bydd angen i chi ystyried:

Caniatâd (caniatâd gwirfoddol,
gwybodus)

Caniatâd gwirfoddol, gwybodus

Mae hyn yn un o egwyddorion sylfaenol ymddygiad moesegol mewn ymchwil.

'It is normally expected that participants' voluntary informed consent to be involved in a study will be obtained at the start of the study, and that the researchers will remain sensitive and open to the possibility that participants may wish, for any reason and at any time, to withdraw their consent' (BERA, 2018:9).

Bydd angen i chi ystyried:

Cydsyniad

- ▶ UNCRC Erthygl 12: Dylai plant gael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt

Bydd angen i chi ystyried:

- ▶ Pwy sydd angen rhoi caniatâd?
- ▶ Sut y byddwch chi'n gofyn amdano?
- ▶ Hawl y cyfranogwyr i dynnu'n ôl

Ymddwyn yn Foesebol

Mae angen i'r tri phlentyn a ddewiswyd i gymryd rhan yn y grŵp ffocws hefyd ddeall eu hawl i:

- * wrthod cymryd rhan heb ganlyniadau andwyol;
- * beidio ag ateb cwestiynau penodol heb orfod rhoi rheswm;
- * dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw bwynt heb ganlyniadau anffafriol.

Darlun...cydsyniad parhaus

- ▶ Mae rhai ymchwilwyr yn defnyddio system tic/croes neu wynebau hapus/trist i sicrhau cydsyniad parhaus. Gellir gwneud hyn hefyd gyda chardiau datganiad dwyffordd.
- ▶ Trwy roi cerdyn dwyffordd i'r plant, yn syml, gallant droi'r cerdyn i ddangos eu bod yn hapus i barhau neu eu bod eisiau gadael.



Rwy'n hapus i barhau
Hoffwn i adael

Enghraifft

- ▶ Mae Llinos yn ymchwilio i'r graddau y mae'r plant Meithrin yn dewis amrywiaeth o weithgareddau chwareus dros gyfnod sesiwn, neu'n tueddu tuag at yr un rhai. Mae hi wedi penderfynu y bydd recordio tair sesiwn ar fideo ac olrhain symudiadau plant rhwng pob dewis chwarae, a'r amser a dreuliant wrth bob dewis, yn rhoi data defnyddiol iddi hi.
- ▶ Sut gallai Llinos:
 - hysbysu'r plant am yr hyn mae hi'n bwriadu ei wneud?
 - penderfynu p'un ai a all y plant ddewis peidio â bod yn y fideo? Os felly, sut mae hi'n sicrhau'r opsiwn hwn?
 - ceisio cytundeb y plant i olrhain eu dewisiadau chwarae er mwyn helpu ei hymchwilio?
 - sicrhau cytundeb parhaus gan y plant i gymryd rhan?

Ethics Form

- ▶ What can you offer in FULL confidence?
 - ▶ never promise what you cannot offer
- ▶ Adult participants must be fully (and accurately) informed
- ▶ Children must not be misled and should be informed as fully as appropriate

Darlun...cytundeb gan blant

▶ ifanc

- ▶ Mae rhai ymchwilwyr yn defnyddio bathodynau, sticeri neu fandiau lliw gwahanol i'r plant eu gwisgo er mwyn dangos p'un ai a ydynt yn hapus i gael eu harsylwi
- ▶ Ar ôl esbonio y bydd recordiad fideo o'r sesiwn Feithrin ar gael i'w wyllo nes ymlaen, gall y plant ddewis bathodynau, sticeri neu fandiau melyn neu wyrdd i ddangos p'un ai a ydynt yn hapus i'w hathrawon eu gwyllo nes ymlaen ar y fideo. (Ni allant, yn yr achos hwn, ddewis peidio â chael eu cynnwys yn y fideo).
- ▶ Bydd y bathodynau, sticeri neu'r bandiau ar gael i'r plant trwy gydol y sesiwn, fel y gallant newid eu meddwl ar unrhyw adeg.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg, Cyfnewid a Chymhellid yng Wales

▶ Mae ymchwilwyr sy'n defnyddio'r dulliau

cytuno hyn am y tro cyntaf yn aml yn

synu sut mae'r rhai hwyaf o'r plant yn

Ymddwyn yn foesegol

‘Ethical practice in research involves thoughtful reflection about how one ought to proceed in any given situation ... it is more than simply the avoidance of being unethical or conforming to regulations’


(McGinn 2014: 159)

Rheoli Data

1. Ystyriaethau moesegol rheoli data.



- ▶ Mae pob ymchwil ac ymholi yn cynnwys delio â data.
- ▶ Gall y data hwn fod ar sawl ffurf wahanol e.e. canlyniadau arolygon, arsylwadau neu gyfweliadau.
- ▶ Mae rheoli'ch data ymchwil yn foesegol yn holl bwysig i'r broses ymchwil.
- ▶ Yn benodol, mae sicrhau eich bod yn ystyried y ffordd orau o **greu, storio, diogelu, rhannu a chadw** eich data yn hanfodol.



2. Ystyriaethau allweddol



Rhaid i arferion ymchwil sicrhau bod data a chofnodion ymchwil:

- ▶ Yn fanwl gywir, yn gyflawn, yn ddilys ac yn ddibynadwy
- ▶ Yn adnabyddadwy, adferadwy a hygyrch
- ▶ Wedi'u cadw mewn modd diogel
- ▶ Wedi'u cadw mewn modd sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
- ▶ Ar gael i eraill yn unol ag egwyddorion moesegol priodol ac egwyddorion rhannu data a mynediad agored
- ▶ Yn gymesur â buddiannau cyfiawn a diogelwch cyfranogwyr dynol mewn data ymchwil.


(Datganiad Rheoli Data Ymchwil y Drindod Dewi Sant, 2018)

Storio'ch data ymchwil

- ▶ Rhaid i chi sicrhau eich bod yn storio'ch data ymchwil yn ddiogel.
- ▶ Er enghraifft, gallwch ddefnyddio dyfeisiau electronig sy'n cael eu hamddiffyn gan gyfrinair ac sy'n amgryptio'r data.
- ▶ Gallwch osgoi defnyddio dyfeisiau storio cludadwy, fel cofau bach.
- ▶ Ni ddylid anfon data drwy'r e-bost neu fathau eraill o gyfrwng sy'n gallu cael eu hacio.
- ▶ Dylid cadw copïau caled o unrhyw gofnodion ar safle diogel.
- ▶ Dylai pob aelod o'r tîm ymchwil ddeall sut i ddiogelu'r data.
- ▶ Gweler BERA (2018: 25).





The background features abstract, overlapping green geometric shapes, primarily triangles and polygons, in various shades of green, creating a modern and dynamic visual effect.

Cymeradwyaeth foesegol

A oes angen cymeradwyaeth foesegol arnaf?

- ▶ Mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gallem ofyn p'un a oes angen cymeradwyaeth foesegol arnom pan fydd ein hymchwil ym ymwneud â datblygu ein harfer addysgu (ein haddysgeg)
- ▶ Mae pob gwaith ymchwil yn gofyn i chi ystyried y goblygiadau moesegol; pan fyddwch yn gofyn i gyfranogwyr wneud neu gyfrannu unrhyw beth sy'n ychwanegol at weithgarwch arferol yr ystafell ddosbarth, fel arfer bydd angen i chi geisio cymderadwyaeth foesegol
- ▶ Os ydych yn ymgymryd â gwaith ymchwil gyda Sefydliad Addysg Uwch neu os ydych yn cael eich ariannu gan gorff ymchwil, bydd angen i chi ofyn am eu prosesau cymeradwyo.
- ▶ Bydd gofyn i gofrestreion llwyddiannus fydd yn cael bwrsari CGA gael cymeradwyaeth moesegol gan banel moeseg CGA cyn iddynt gychwyn ar eu prosiect ymchwil.

A oes angen cymeradwyaeth
foesegol arnaf?

Rhaid i'ch ffurflen
gymeradwyo foesegol
gael ei chyflwyno a'i
chymmeradwyo cyn i chi
ddechrau unrhyw
ymchwil.

Pwyllgor Moeseg a'r broses
gymeradwyo foesegol

Proses ffurflenni moeseg TAR

- ▶ Caiff pob ffurflen foeseg ei darllen gan staff addysgu'r modiwl;
- ▶ Byddwch yn derbyn adborth unigol – caniatâd wedi'i gymeradwyo / caniatad amodol / gwrthod.
- ▶ Os byddwch yn cael cymeradwyaeth amodol, bydd angen i chi wneud y newidiadau sydd wedi'u nodi gan ysgrifennu'r newidiadau **mewn coch** ac ailgyflwyno eich ffurflen.
- ▶ Os caiff eich ffurflen ei wrthod, bydd hyn yn golygu bod gennych newidiadau sylweddol i'w gwneud a dylech gysylltu â Catherine am gymorth.

Proses ffurflenni moeseg TAR

Wedyn:

- Bydd Pwyllgor Moeseg Yr Athrofa yn derbyn sampl o ffurflenni moeseg

Pwyllgor Moeseg

- ▶ Grŵp o bobl yw panel cymeradwyo moesegol neu 'Bwyllgor Moeseg', gyda dealltwriaeth gyfunol dda o foeseg ymchwil, sy'n cyfarfod i drafod goblygiadau moesegol cynigion ymchwil;
- ▶ Bydd y Pwyllgor Moeseg yn ystyried camau arfaethedig yr ymchwilydd wrth fodloni'r goblygiadau moesegol;
- ▶ Fel rheol, gall y Panel gymeradwyo ceisiadau, eu cymeradwyo'n amodol neu eu gwrthod;

Proses ffurflenni moeseg TAR

- ▶ Os bydd eich ffurflen yn rhan o'r sampl, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrth Catherine ddydd Mercher. Bydd angen i chi anfon eich ffurflen ati drwy e-bost, gan labelu'r ddogfen fel a ganlyn:
- ▶ (CYFENW_ENW_CWRS_DYDDIAD)
e.e. SMITH_JOHN_PPGCE_230119
- ▶ DS - Weithiau, gall mater a godir gan y Pwyllgor Moeseg olygu bod angen i **bob** myfyriwr wneud yr un gwelliant.

Ni ddylid wneud
unrhyw waith ymchwil
nes bod gennych
gymeradwyaeth
foesegol.

Pethau i feddwl amdany'n nhw a'u gwneud cyn y sesiynau yfory

- ▶ Anhysbysrwydd / cyfrinachedd
- ▶ Caniatâd / cydsyniad
- ▶ Rheoli data
- ▶ Lawrlwythwch ffurflen moeseg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant o Moodle i'ch gliniadur neu argraffwch gopi caled.